OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2136 (Cy.149)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *5 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad (1)* | | |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 118(4) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) a pharagraff 6 o Atodlen 1 iddi:

(**1**) 2000 p. 14. Mae'r pŵ er o dan baragraff 6 o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag awdurdod. Mae awdurdod yn cynnwys Cyngor Gofal Cymru ond mewn perthynas â Chyngor Gofal Cymru mae cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w ddarllen fel cyfeiriad at y Cynulliad: gweler paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf. Mae adran 118(5) i (7) yn gymwys i unrhyw bŵ er sydd gan y Cynulliad i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf: gweler adran 118(4) o'r Ddeddf.